

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Delweddu Diagnostig,
Ysbyty Maelor Wrecsam, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 19 / 20

Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	33
4.	Beth nesaf?.....	45
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio ..	47
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	48
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	49
	Atodiad C – Cynllun gwella	50

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (RhYÏ(CM)) o'r Adran Delweddu Diagnostig yn Ysbyty Maelor Wrecsam o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 19 a 20 Hydref 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac uwchswyddog diagnostig clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015)

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a welwyd, canfuom fod cydymffurfedd â RhYŷ(CM) 2017 yn dda. Roedd trafodaethau â'r staff yn dangos bod ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau yn unol â RhYŷ(CM) hefyd yn dda yn gyffredinol.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan RhYŷ(CM) 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn berthnasol i radioleg.

Roedd y cleifion a'r staff a gwblhaodd yr arolwg yn gadarnhaol am eu profiadau yn yr adran.

Roedd trafodaethau â'r rheolwyr a'r staff yr adran drwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Nodwyd rhai meysydd i'w gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- Roedd yr adborth gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Yn gyffredinol, canfuom fod cydymffurfedd da â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Y broses hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr anfeddygol

- Cydberthnasau gwaith da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol¹ a'r staff sy'n gweithio yn yr adran
- Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau addas ar waith i ganiatáu atal heintiau a dihalogi
- Roedd yr uwch staff yn derbyn ein harolygiad a gwnaethant ddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad
- Roedd cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant RhYŷ(CM) yn dda.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn gwirio statws beichiogrwydd claf yn gyson cyn i'r claf ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio a dogfennu'r gwiriad.
- Gweithredu trefniadau i gasglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal, er mwyn galluogi i anghenion hyfforddiant a datblygu gael eu nodi a'u monitro
- Dileu unrhyw feysydd posibl o wahaniaethu.

¹ Mae arbenigwr ffiseg feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei gymhwysedd yn hyn o beth. Mae RhYŷ(CM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty aciwt i boblogaeth o oddeutu 690,000 o bobl, ar draws chwe sir yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae gan y bwrdd iechyd dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau ac unedau iechyd meddwl.

Roedd cyfarpar yr adran yn cynnwys cyfarpar radiograffeg cyffredinol diagnostig, cyfarpar pelydr-X symudol gan gynnwys braich siâp C symudol², cyfarpar fflworosgopeg³, cyfarpar ymyriadol pwrpasol, sganwyr tomograffeg cyfrifiadurol⁴ a chyfarpar deintyddol.

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys radiograffwyr adrodd uwchymarfer, radiograffwyr, radiolegwyr ymgynghorol, cynorthwyyr yr adran radiolog ynghyd â staff domestig, gweinyddol a chlerigol. Roedd hefyd 21 o radiograffau dan hyfforddiant sy'n gweithio patrymau sifft yn yr adran sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y radiograffwyr.

Roedd yr adran yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau a ddarperir gan radiograffwyr, ac fe'i cefnogwyd hefyd gan ddarparwr trydydd parti sy'n darparu cyfiawnhad a gwerthusiad clinigol ar gyfer sganiau y tu allan i oriau. Roedd hefyd gwaith cyflenwi wrth gefn gan radiolegwyr y bwrdd iechyd, pan fydd angen.

² Mae braich siâp C yn ddwysydd sganiwr delweddu. Mae'r enw'n deillio o'r fraich siâp C a ddefnyddir i gysylltu'r ffynhonnell pelydr-X a'r synhwyrdd pelydr-X â'i gilydd. Mae gan freichiau siâp C alluoedd radiograffeg, maent yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer delweddu mewndriniaethol fflworosgopig yn ystod gweithdrefnau llawfeddygol, orthopedig a gofal brys.

³ Mae fflworosgopeg yn fath o ddelweddu meddygol sy'n dangos delwedd pelydr-X parhaus ar fonitor.

⁴ Mae sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol yn beiriant mawr siâp toesen gyda thwnnel yn y canol lle mae'r sganio yn digwydd. Mae rhywun yn gorwedd ar fwrdd gwastad sy'n llithro i mewn i'r twnnel ac allan ohono.

Roedd gan yr adran hefyd gyngor a chymorth a ddarperir gan arbenigwyr ffiseg feddygol a gyflogir gan y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y staff yn yr adran radioleg.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd caredig a pharchus.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith ar y cyfan i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran.

Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth weithredu proses i gasglu adborth profiad y cleifion yn rheolaidd a sicrhau bod canfyddiadau a champau dilynol yn cael eu rhannu â'r cleifion a'r staff.

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur i gael barn cleifion ar yr Adran delweddu Ddiagnostig yn yr ysbyty. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 28 o ymatebion, pob un ohonynt ar-lein. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Gwnaeth y cleifion nifer o sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth, ond nid oeddent am i ni gyhoeddi eu sylwadau.

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd 96 y cant o'r cleifion a ymatebodd y cwestiwn raddio y gwasanaeth fel 'da iawn' neu 'dda'.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi arolwg ar-lein i gael barn y staff ar yr adran delweddu diagnostig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 62 o ymatebion gan y staff yn yr ysbyty. Eto, nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Cadw'n iach

Gwnaeth yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau bod yr holl daflenni wedi cael eu tynnu a'u dinistrio o ganlyniad i COVID-19. Gwelsom un daflen ym mhrif ystafell aros yr adran a oedd yn ymwneud â chymorth canser. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ar boster rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i arddangos ger prif ddesg y dderbynfa.

Gwnaethom hefyd weld nifer o bosteri wedi'u harddangos ar draws yr adran yn cynghori cleifion i roi gwybod i'r staff os ydynt yn feichiog, neu bod siawns y gallent fod yn feichiog. Roedd posteri hefyd yn cael eu harddangos ar draws yr adran mewn perthynas â buddion a risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos o'r ymbelydredd o'r cysylltiad. Yn ogystal, gwnaethom nodi gwybodaeth arall ar bosteri, gan gynnwys cyngor i gleifion ar dderbyn y canlyniadau yn dilyn eu gweithdrefn.

Gofal ag urddas

Cafodd cleifion eu cyfarch gan staff y dderbynfa a byddai'r radiograffydd yn eu casglu o'r ystafell aros pan oedd yn barod. Yn ystod ein hamser yn yr adran, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cwrtais, sensitif a phroffesiynol. Ni chlywsom unrhyw sgyrsiau sensitif a gynhaliwyd yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Dywedodd bron pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth neu weithdrefn heb gael eu clywed gan bobl eraill. Yn yr un modd, dywedodd bron pob un o'r cleifion fod y staff yn gwranddo arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Roedd prif ardal aros yr adran wedi'i haidrefnu i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol rhwng cleifion sy'n aros. Roedd nifer y seddi sydd ar gael yn yr adran yn ymddangos yn briodol ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu yn ystod ein hymweliad. Roedd cadeiriau wedi'u trefnu hefyd yn yr ail ystafell aros a oedd yn union y tu allan i'r ystafelloedd archwilio er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol.

Roedd ciwbiclau newid ar gael ger yr ardaloedd triniaeth ar draws adran. Roedd gan bob ciwbicl len y gellir ei chau i alluogi'r cleifion i newid eu dillad yn breifat, pan fydd angen. Yn y ciwbiclau, roedd drych a phosteri am y weithdrefn berthnasol, yn ogystal â phosteri am feichiogrwydd. Roedd gan y llenni ar bob ciwbicl a welwyd arwydd dim mynediad a oedd yn nodi 'peidiwch â tharfu' a oedd yn weladwy pan oedd y llenni ar gau. Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr arolwg eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Dywedodd bron pob un o'r staff a gwblhaodd yr arolwg fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal 'drwy'r amser' neu 'fel arfer'.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y disgrifiwyd uchod, gwelsom bosteri ar draws yr adran, gan gynnwys y brif dderbynfa, is-ystafelloedd aros ac o fewn ciwbiclau newid sy'n rhoi gwybodaeth i'r cleifion am eu harchwiliad. Gwelwyd arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog ar draws yr adran. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (96 y cant):

- Eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth, i'r graddau yr oeddent yn dymuno

- Eu bod wedi cael gwybodaeth glir i ddeall buddion a risgiau eu harchwiliad
- Eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu gweithdrefn neu eu triniaeth.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith a oedd yn disgrifio sut y dylid cyfleu buddion a risgiau dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio i gleifion. Roedd y weithdrefn hon yn amlinellu'r wybodaeth y dylid ei rhoi i'r claf mewn ffurf gyson. Dywedodd y staff wrthym y byddai gwybodaeth am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hanfon at y cleifion cyn eu harchwiliad, ynghyd â phosteri'n cael eu harddangos yn yr adran.

Fodd bynnag, ni ellid cadarnhau a oedd cleifion theatr yn derbyn gwybodaeth am fuddion a risgiau cyn y cysylltiad ag ymbelydredd. Mae'n rhaid ychwanegu tystiolaeth o'r gwiriad at y ffurflen gydsynio i sicrhau cydymffurfedd â'r gofyniad rheoliadol hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses wedi'i dogfennu ar gyfer hysbysu'r cleifion am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd wrth ymgymryd â phob archwiliad radiolegol gan gynnwys gweithdrefnau theatr. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys pwy fydd yn darparu'r wybodaeth a sut mae'n cael ei chofnodi.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cawsom ein hysbysu gan y staff fod dolen glyw wedi'i gosod yn y brif dderbynfa er mwyn cynorthwyo cleifion sy'n gwisgo cymorth clyw wrth gyfathrebu â'r staff. Cadarnhaodd y staff ei bod yn cael ei throi ymlaen yn ôl y gofyn i helpu'r cleifion â nam ar eu clyw ac i'r rhai sy'n gwisgo cymorth clyw. Roedd arwydd dwyieithog wedi'i arddangos ar ddesg y brif dderbynfa sy'n cynghori'r cleifion i hysbysu'r staff y dderbynfa os ydynt yn dymuno defnyddio'r ddolen glyw. Roedd yr arwyddion ar draws yr adran yn ddwyieithog. Roedd yr holl bosteri a oedd yn cael eu harddangos mewn perthynas ag ymholiadau ynghylch beichiogrwydd, gweithdrefnau radioleg a dulliau rhoi adborth hefyd yn ddwyieithog.

Dywedodd staff wrthym fod mynediad at wasanaethau cyfieithu dros y ffôn ar gael pe bai claf na all gyfathrebu yn Saesneg yn mynychu'r uned. Cawsom hefyd wybod bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr adran os yw claf yn dymuno

cyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd poster wedi'i arddangos mewn perthynas â'r 'Cynnig Rhagweithiol'⁵.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siaradwyr Cymraeg neu gymorth Cymraeg yn yr adran i helpu i gyflawni'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Gofal amserol

Gwnaethom dreulio peth amser yn y brif dderbynfa yn arsylwi ar y cleifion a'r ardal. Er na chlywsom staff y dderbynfa yn rhoi gwybod am amseroedd aros i'r cleifion wrth iddynt gyrraedd yr adran, ni welsom unrhyw gleifion yn aros am gyfnodau arbennig o hir am eu harchwiliad. Dim ond pedwar y cant o'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar yr holiadur a ddywedodd fod yn rhaid iddynt aros dros 30 munud. Dywedodd 70% o'r cleifion na chawsant wybod pa mor hir y byddent yn debygol o aros cyn cael eu harchwiliad. Fodd bynnag, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn hysbysu prif ddesg y dderbynfa pe bai unrhyw oedi. Dywedodd y staff hefyd na fyddent fel arfer yn dweud wrth y cleifion am amseroedd aros arferol ond byddent yn rhoi gwybod am unrhyw amseroedd aros eithafol. Gwnaethom hefyd nodi bod is-ystafelloedd aros ar gyfer pob arbenigedd.

Gwnaethom ofyn cwestiynau amrywiol i'r cleifion yn yr arolwg mewn perthynas â gofal amserol a dywedodd 93% ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' dod o hyd i'r adran. Yn ogystal, dywedodd 89 y cant wrthym ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' trefnu apwyntiad ar gyfer eu triniaeth neu weithdrefn.

Roedd ymatebion y staff i'r arolwg hefyd yn gadarnhaol yn y maes hwn gyda 95 y cant a fynegodd farn yn dweud eu bod yn fodlon 'fel arfer' o leiaf ar ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu i'r cleifion. Yn yr un modd, dywedodd 97% fod y cleifion 'bob amser' neu 'fel arfer' yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Yn yr un modd, dywedodd 85 y cant o'r staff fod yr uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ofalu am gleifion.

⁵ Yn syml, ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Roedd yr adran wedi'i lleoli oddi ar brif goridor yr ysbyty. Roedd hefyd coridorau'n cysylltu'r adran â'r uned ddamweiniau ac achosion brys i roi mynediad hawdd at gleifion pan fydd angen. Roedd mynediad gwastad ar draws yr adran i alluogi unigolion â phroblemau symudedd i fynychu'r adran. Dywedodd 90 y cant o'r cleifion eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg iawn, ac nad oedd unrhyw nodweddion gwarchodedig yn cael effaith ar hyn⁶. Dywedodd dau glaf eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd hwn. Cyfeirir at y maes hwn ymhellach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Dywedodd pob claf mai Saesneg yw eu dewis iaith, eu bod yn gallu cyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith.

Gwranddo a dysgu o adborth

Dywedodd y staff wrthym, ar yr adegau pan godwyd pryderon ar lafar gan gleifion, y gwnaed ymdrechion, lle bo hynny'n bosibl, i siarad â'r claf ar unwaith i geisio datrys unrhyw faterion neu bryderon yn gyflym ac yn effeithlon. Dywedwyd wrthym fod proses gwynion y dylid ei dilyn. Lle nad oedd yn bosibl ymdrin â chwyn ar lefel adrannol, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaeth cynghorol cleifion y bwrdd iechyd a oedd yn rheoli'r pryderon hyn. Roedd posterï hefyd wedi'u harddangos yn yr adran ar weithdrefn gwynion Cymru gyfan y GIG, o'r enw Gweithio i Wella⁷.

⁶ Mae nodweddion gwarchodedig yn agweddau penodol ar hunaniaeth unigolyn a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef oedran, anabledd, aibennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r 'gwarchod' yn ymwneud â gwarchod rhag gwahaniaethu.

⁷ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Roedd posteri yn cael eu harddangos ar draws yr adran yn hysbysebu system adborth 'Gwrandio / Listen' y bwrdd iechyd. Roedd cod ymateb sydyn⁸ (QR) yn cael ei arddangos ar y poster i gleifion gael mynediad at y ffurflen adborth ar-lein. Fodd bynnag, pan wnaeth y tîm arolygu geisio cael mynediad at y ffurflen, nododd fod yr arolwg ar gau. Ger desg y dderbynfa yn yr adran, roedd ffurflenni adborth papur 'Gwrandio / Listen' a blwch i unigolion roi eu ffurflenni wedi'u cwblhau.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y gwasanaeth yn arfer defnyddio dull i alluogi cleifion i roi eu hadborth ar gwestiwn penodol. Rhoddwyd tocynnau iddynt ac roedd yn rhaid i'r unigolyn roi ei docyn yn y bocs oedd yn cyfateb i'w hateb. Yn y gorffennol, roedd y cwestiynau'n cynnwys a oedd aelod o staff yn noeth o dan y penelin, a oedd y cleifion yn hapus gyda'u hapwyntiad ac a oedd yr adran yn lân ac yn daclus. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ar y wal ar hyd coridor y brif fynedfa i'r adran mewn perthynas ag adborth a dderbyniwyd gan y cleifion yn y gorffennol. Gwnaeth y staff gadarnhau bod hyn yn cael ei wneud bob mis am gyfnod yn ystod 2017/18. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf a arddangoswyd yn dyddio o 2018. Roedd yr holl ymatebion i'r cwestiynau'n gadarnhaol yn gyffredinol.

Roedd ymatebion y staff yn yr holiadur yn ymwneud â phrofiad y cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Dywedodd 81 y cant fod adborth yn cael ei gasglu
- Dywedodd 62 y cant eu bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar yr adborth
- Dywedodd 45 y cant fod adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus, er i 47 y cant ymateb gan ddweud nad oeddent yn gwybod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried cael dull safonol o gasglu adborth gan y cleifion i'r adran. Dylid bwydo canfyddiadau, dadansoddiad ac unrhyw gamau dilynol yn ôl i'r cleifion a staff yr adran.

⁸ Mae cod QR yn fersiwn dau-ddimensiwn o'r cod bar, wedi'i wneud yn nodweddiadol o batrymau picstel du a gwyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod system ar waith i sicrhau y gofynnir am adborth gan y cleifion, a'r staff, yn rheolaidd.
- Bod y cleifion a'r staff yn cael gwybod am ganlyniadau'r adborth
- Bod staff yn deall sut mae adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom fod cydymffurfedd â RhYŷ(CM) 2017 yn dda o'r dystiolaeth a oedd ar gael a'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r staff.

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â RhYŷ(CM) 2017 hefyd yn dda. Canfuom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion sy'n ymweld â'r adran.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol ar waith gan y gwasanaeth i sicrhau bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr adran.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyflogwr sy'n ofynnol o dan RhYŷ(CM) ar gael. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn berthnasol i radioleg.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r angen i sicrhau bod gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cynnal yn briodol a bod y gwiriadau hyn yn cael eu dogfennu.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Cyn ein harolygiad, roedd AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i uwch-aelodau o staff yn yr adran gwblhau ffurflen hunanasesu a'i chyflwyno. Roedd hyn er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â RhYŷ(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Cafodd y ffurflen hunanasesu ei dychwelyd i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Pan oedd angen gwybodaeth neu eglurder ychwanegol arnom mewn perthynas â'r ymatebion yn yr hunanasesiad, cafodd ei rhoi gan uwch-aelodau o staff yn gyflym.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn cyflogwr gyfredol i'r staff ei dilyn i adnabod cleifion yn gywir cyn eu cysylltiad ag ymbelydredd. Nod hyn oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd yn unol â gofynion y weithdrefn. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i staff gadarnhau enw llawn, cyfeiriad cartref a dyddiad geni'r claf. Roedd y dull hwn yn unol â chanllawiau cyfredol y DU⁹. Roedd y weithdrefn hefyd yn manylu dulliau amgen y mae'n rhaid i staff eu defnyddio os na allai cleifion gadarnhau eu hunaniaeth eu hunain ar lafar.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion. Hefyd, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd ein harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol gan y staff cyn dechrau eu harchwiliad.

Unigolion sydd â'r gallu i gael plant (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth nad oedd yr ymholiad yn ymwneud â beichiogrwydd yn cael ei wneud ym mhob achos perthnasol. Gwnaethom wirio cofnodion ar-lein ac roedd bylchau clir yn y gwaith o gofnodi statws beichiogrwydd. Ar gyfer y statws beichiogrwydd, roedd gofyn am ateb 'ydy' neu 'nac ydy'. Pe bai'r gweithredwr yn casglu gwybodaeth ychwanegol, byddai hyn yn cael ei hysgrifennu ar y ffurflen ond nid oedd lle penodol i'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, gwnaethom nodi dau achos lle nad oedd y gwiriad beichiogrwydd wedi'i gofnodi ar y gwaith papur perthnasol.

Hefyd, gwnaeth yr archwiliad mewnol Rhŷi(CM) bwysleisio'r mater hwn a phrin oedd y dystiolaeth i ddangos y gweithredir ar hwn gan fod y niferoedd yn gwaethygu ers yr archwiliad diwethaf.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer cynnal ymholiadau beichiogrwydd i unigolion sydd â'r gallu i gael plant, cyn unrhyw gysylltiadau ag ymbelydredd. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson. Nododd y weithdrefn

⁹ Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Arweiniad ar gyfer Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

nodi'r staff sy'n gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac amlinellu'r broses i'w dilyn, yn dibynnu ar ymateb yr unigolyn. Er bod y weithdrefn yn cynnwys ystod oedran y cleifion y dylid eu holi am feichiogrwydd, yn unol â chanllawiau'r DU, nid oedd y siart lif sy'n cael ei chynnwys fel atodiad yn cynnwys yr ystod oedran.

Gwnaethom nodi hefyd bod posteri yn cael eu harddangos yn yr adran yn cynghori unigolion i siarad â'r staff os oeddent yn meddwl ei bod hi'n bosib eu bod yn feichiog, neu eu bod yn feichiog. Roedd hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed posibl i blentyn yn y groth o'r cysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd, a oedd yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a ddisgrifir uchod. Cawsom wybod hefyd y byddai statws beichiogrwydd yn cael ei wirio ar lafar gyda gofalwyr a chysurwyr cyn unrhyw gysylltiad ag ymbelydredd. Roedd cofnod o'r gofalwyr a'r cysurwyr a oedd yn bresennol gyda'r cleifion yn ystod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael ei gadw'n lleol mewn llyfr. Dylid defnyddio'r llyfr hwn ymhellach i nodi bod gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cwblhau ar y gofalwr neu'r cysurwr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses a ddefnyddir pan fydd claf sy'n derbyn triniaeth yng nghwmni gofalwyr neu gysurwyr. Roedd hyn yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer gofalwyr a chysurwyr.

Achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer cynnal cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol¹⁰. Byddai atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau delweddu anfeddygol ond yn cael eu derbyn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig.

Roedd y rhestr o ddelweddu anfeddygol cyfredol a berfformiwyd yn cynnwys anaf posibl a achoswyd (a elwir hefyd yn delweddu anfeddygol neu gam-drin corfforol posibl). Yn gyffredinol, nid yw hwn yn cael ei ddsbarthu fel delweddu anfeddygol o dan RhYĪ(CM) gan y bydd budd iechyd uniongyrchol i'r unigolyn sy'n cael y cysylltiad. Yn ogystal, roedd perfformiad chwaraeon a datblygiad corfforol wedi'u cynnwys yn y rhestr o ddelweddu anfeddygol. Gan nad yw'r rhain yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn y rhestr o ddelweddu anfeddygol o fewn adran 4 tabl

¹⁰ Mae achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol yn cynnwys y rhai ar gyfer asesu iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnffudo a dibenion yswiriant. Gellir cyflawni'r rhain hefyd i nodi gwrthrychau cudd yn y corff.

1 y weithdrefn cyflogwr, dylid ystyried diweddarau'r rhestr hon i adlewyrchu archwiliad cyfredol sy'n cael ei ddarparu.

Canllawiau atgyfeirio

Y canllawiau atgyfeirio a ddefnyddiodd y cyflogwr oedd cyhoeddiad iRefer¹¹ Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, sy'n nodi'r meini prawf atgyfeirio a hefyd yn darparu arwydd o'r dos o ymbelydredd. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod atgyfeiriadau'n cael eu derbyn gan atgyfeirwyr â hawl, sydd wedi cael eu cofrestru ar y system ar yr amod bod hyn yn unol â'r canllawiau penodol ar gyfer atgyfeirio.

Roedd y wybodaeth ofynnol yn cynnwys manylion perthnasol y claf, hunaniaeth a llofnod yr atgyfeiriwr, yr archwiliad sy'n ofynnol, a data meddygol sylweddol i alluogi'r ymarferydd i gyfiawnhau'r cysylltiad ag ymbelydredd.

Roedd y ffurflen hunanasesiad hefyd yn disgrifio sut mae atgyfeiriadau delweddu diagnostig ac atgyfeiriadau radioleg ymyriadol yn cael eu gwneud i'r adran hon. Roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio templed papur safonol sy'n cael ei anfon at yr adran naill ai gyda'r claf, drwy'r post, neu gallai'r atgyfeiriwr ddod â'r cais i'r adran yn uniongyrchol. Mae rhai practisiau'n anfon y ffurflen bapur wedi'i sganio dros yr e-bost at flwch cyfeiriad safonol.

Roedd ffurflenni atgyfeirio mewn theatrau'n cael eu cwblhau gan y llawfeddyg sy'n gwneud y llawdriniaeth. Mae'r radiograffydd yn gyfrifol am gyfiawnhau atgyfeiriadau mewn theatrau.

Mae prosiect newydd ar droed i gyflwyno ceisiadau electronig i'r adran.

Mae ffurflenni atgyfeirio anghyflawn yn cael eu dychwelyd at yr atgyfeiriwr gyda phrofforma'n nodi'r rheswm dros eu dychwelyd. Nododd adroddiad archwiliad ffiseg ymbelydredd broblemau gyda'r broses o atgyfeiriadau anghyflawn a sut y gallai'r cleifion golli apwyntiad pan oedd ffurflenni'n cael eu dychwelyd at yr atgyfeiriwr. Roedd y cynrychiolwyr rheoli y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn hyderus y byddai'r broses gyfredol sydd ar waith yn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd.

¹¹ Derbynnir iRefer yn eang fel offeryn pwysig i hyrwyddo delweddu ar sail tystiolaeth. Mae iRefer yn gwerthuso tystiolaeth glinigol o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio rhwydwaith o arbenigwyr clinigol i ddilysu gwybodaeth. Mae'n adlewyrchu arfer gorau cyfredol.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod yn rhaid i atgyfeirwyr anfeddygol cymwysedig gwblhau rhaglen hyfforddiant a gofyn am yr hawl yn ffurfiol. Mae hwn yn cael ei adolygu trwy banel radioleg sy'n darparu hawl ffurfiol, os yw'r cais yn cael ei dderbyn. Byddai'r atgyfeiriwr anfeddygol wedyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr o atgyfeirwyr anfeddygol. Yn sgil y dystiolaeth hon o arferion da, dylai'r bwrdd iechyd ystyried ehangu'r hyfforddiant hwn i atgyfeirwyr meddygol lle y nodir meysydd o ddiffyg cydymffurfedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau:

- Bod gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cynnal i bob unigolyn sydd â'r gallu i gael plentyn lle y bo'n berthnasol a bod y cofnod hwn yn cael ei ddogfennu.
- Bod ystod oedran y cleifion y dylid gofyn iddynt am feichiogrwydd yn cael ei chynnwys yn y siart lif fel y disgrifir yn y weithdrefn cyflogwr berthnasol
- Bod gweithdrefn cyflogwr ddelweddu anfeddygol yn cael ei diweddarau yn unol ag archwiliadau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd
- Bod cofnod o wiriadau beichiogrwydd a gynhelir ar ofalwyr a chysurwyr yn cael ei gofnodi yn y llyfr perthnasol yn yr ystafelloedd archwilio.

Dyletswyddau ymarferwr, gweithredwr ac atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi rolau a chyfrifoldebau gwahanol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg. Nododd gweithdrefnau'r cyflogwr ar sut y gweithredwyd RhYŷ(CM) 2017

o fewn yr adran, yn ôl grŵp staff, a oedd â hawl i fod yn atgyfeirwyr,¹² ymarferwyr¹³ a gweithredwyr¹⁴ (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliad dyletswydd perthnasol a chwmpas yr hawl o dan RhYĪ(CM). Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cyrchu fersiynau electronig cyfoes o bolisiau a gweithdrefnau trwy yriant a rennir ar-lein y bwrdd iechyd.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant ar gyfer ystod o raddau a grwpiau staff. Gwelwyd y matrices hyfforddiant sy'n cadw cofnodion ar gyfer hawl a'r cwmpas ymarfer ac ni nodwyd unrhyw broblemau. Roedd yr hyfforddiant cyfarpar i radiolegwyr yn cynnwys hyfforddiant gloywi yn dyddio nôl i fis Medi 2021. Nid oedd gan y cofnodion sefydlu a hyfforddiant yr holl golofnau perthnasol wedi'u cwblhau gan gynnwys llythrennau cyntaf yr hyfforddwr. Yn ogystal, nid oedd yr holl gofnodion hyfforddiant yn cynnwys llofnodion a dyddiadau i ddangos bod y cymhwysedd wedi'i gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl gofnodion sefydlu a hyfforddiant yn cael eu cwblhau'n llawn, gyda llofnodion a dyddiadau i ddangos bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau.

¹² O dan RhYĪ(CM), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹³ O dan RhYĪ(CM), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am achos unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Cyfiawnhau achosion o gysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferydd.

¹⁴ O dan RhYĪ(DM), mae gweithredwr yn unrhyw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gynnal achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'r broses gyfiawnhau. Cofnodwyd cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ar y ffurflenni atgyfeirio radioleg, gyda dyddiad a llofnod yr ymarferydd.

Cyflenwyd darpariaeth y tu allan i oriau gan Everlight Radiology ac roeddem yn fodlon bod y broses yn cydymffurfio.

Disgrifiwyd y broses ar gyfer awdurdodi yn y ffurflen hunanasesu. Mae'r ymarferydd wedi dirprwyo'r dasg o awdurdodi i'r gweithredwr RhYİ(CM), trwy ddefnyddio canllawiau awdurdodi. Roedd y canllawiau'n manylu ar y meini prawf awdurdodi ar gyfer pob archwiliad a rhestrir. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r canllawiau awdurdodi a ddarparwyd pwy oedd yr ymarferydd penodol. Yn ogystal, ar gyfer y canllawiau awdurdodi tomograffeg gyfrifiadurol trawma, nid oedd yn glir pwy oedd yr ymarferydd a oedd yn cymryd cyfrifoldeb dros atgyfeiriadau sy'n cael eu hawdurdodi o dan y canllawiau hyn. Dywedwyd wrthym mai'r cyfarwyddwr clinigol fyddai'r ymarferydd. Mae angen i hyn gael ei ychwanegu at y canllawiau awdurdodi i sicrhau bod y gweithredwyr sy'n eu hawdurdodi yn gwybod pwy yw'r ymarferydd unigol y mae'n gweithio oddi tano.

Cawsom ganlyniadau o archwiliad RhYİ(CM), ar adolygiad ôl-weithredol o ffurflenni atgyfeirio ar gyfer cyfiawnhau archwiliadau, wedi'u dyddio Mawrth 2021. Hwn oedd un o bum archwiliad parhaus i sicrhau cydymffurfedd â RhYİ(CM). Cafodd y sampl ei wirio'n unigol i weld a yw'r blwch awdurdodi wedi'i lofnodi gan y radiograffydd neu'r radiolegwyr. Os gwelir ei fod ar goll o'r ffurflen atgyfeirio, roedd ffurflen atgyfeirio RadIS2 yn cael ei gwirio hefyd. Roedd canlyniadau'r archwiliad yn dangos cydymffurfedd o bron i 100 y cant. Gwnaethom wirio sampl o atgyfeiriadau a gwnaethom nodi y gwelwyd y wybodaeth glinigol berthnasol i gyfiawnhau'r atgyfeiriad. Roedd hefyd tystiolaeth o awdurdodi gan ymarferydd â'r hawl priodol, sy'n cadarnhau bod y broses gyfiawnhau wedi'i chynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y canllawiau awdurdodi yn enwi ymarferydd y gellir ei adnabod.

Optimeiddio

Optimeiddio yw'r broses o gadw cysylltiad ag ymbelydredd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol wrth gyflawni'r ansawdd delweddau gorau i ateb y cwestiwn clinigol. Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Nododd y ffurflen hunanasesu fod ymarferwyr a

gweithredwyr yn sicrhau bod dosau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol¹⁵ trwy nifer o ffactorau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses y maent yn ei defnyddio i sicrhau bod dosau'n cael eu hoptimeiddio.

Lefelau cyfeirio diagnostig ¹⁶

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith ar gyfer penderfynu, gweithredu ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Dywedwyd wrthym fod hyn wrthi'n cael ei hadolygu ar adeg yr arolygiad. Yn ystod ein taith o'r adran, gwnaethom nodi bod y lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol yn cael eu harddangos yn glir ym mhob ardal yr ymwelwyd â hi. Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig lleol i gyd yn gyfartal i'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol, neu'n llai. Dylai'r adran ystyried gosod lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer maes paediatreg, lle mae digon o ddata ar gael.

Dangosodd y ffurflen hunanasesu fod y dasg o adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig wedi'i chynnwys yn y cylch gorchwyl ar gyfer y tîm optimeiddio delweddau radioleg perthnasol. Disgrifiwyd y byddai adolygiad o lefelau cyfeirio diagnostig yn cael ei gynnal bob blwyddyn yn ystod cyfarfod chwarter cyntaf y tîm optimeiddio delweddau radioleg. Byddai'r gwiriad hwn yn cynnwys adolygiad o ddosau canolrifol y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys tueddiadau yn y data. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y radiograffydd ymchwil yn edrych ar ddosau ar draws y tri phrif safle yn y bwrdd iechyd fel rhaid o'r tîm optimeiddio delweddau radioleg tomograffeg gyfrifiadurol. Nodwyd bod hyn yn cyflawni gostyngiad sylweddol yn y dos mewn rhai archwiliadau tomograffeg gyfrifiadurol. Roedd hyn yn dangos tystiolaeth o gydweithio ar draws y bwrdd iechyd wedi'i gynorthwyo gan dimau optimeiddio delweddau radioleg, ac yn ffordd o hwyluso dysgu ar y cyd. Roed hefyd yn gadarnhaol nodi bod bwriad sefydlu tîm optimeiddio delweddau radioleg yn y dyfodol ar gyfer radioleg ymyriadol.

¹⁵ Mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol yw'r egwyddor yn y rheoliad a'r gwaith rheoli o systemau diogelwch hanfodol a systemau sy'n ymwneud â diogelwch. Yr egwyddor yw y bydd y risg weddilliol yn cael ei lleihau gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

¹⁶Lefelau cyfeirio diagnostig yw lefel sy'n cael ei defnyddio mewn delweddu meddygol i nodi a yw'r dos i'r claf mewn amodau rheolaidd neu'r faint o radiofferylliaeth sy'n cael ei rhoi mewn gweithdrefn radioleg benodol ar gyfer delweddu meddygol yn anarferol o uchel neu'n anarferol o isel ar gyfer y weithdrefn honno.

Paediatreg

Roedd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd yn nodi y byddai'r staff yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i atal plant rhag symud yn ystod archwiliadau pelydr-X i leihau'r angen am gysylltiadau ag ymbelydredd ailadroddus. Roedd y rhain yn cynnwys bwydo a lapio¹⁷ a thechnegau amrywiol i dynnu eu sylw. Roedd y ffurflen hunanasesu'n cyfeirio ymhellach fod gan y sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol raglenni penodol ar gyfer delweddu plant sy'n optimeiddio'r dos. Yn ogystal, ar gyfer pelydr-X cyffredinol a fflworosgopeg, roedd gosodiad y rhaglen anatomegol wedi'i optimeiddio ar gyfer delweddu plant yn seiliedig ar ystodau oedran.

Dywedwyd wrthym hefyd fod swydd ar gyfer radiograffydd pediatrig arweiniol wedi'i chyflwyno yn yr adran belydr-X cyffredinol i gefnogi'r gwaith o ddelweddu plant i sicrhau bod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu hoptimeiddio. Yn ogystal, roedd radiograffydd ymchwil wedi cwblhau a chyhoeddi ymchwil ar optimeiddio delweddu pelydr-X crud cynnal newyddenedigol. Roedd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i safoni technegau a phrotocolau. Roedd hefyd wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o brynu crudau cynnal sy'n hwyluso optimeiddio dos.

Gwerthusiad clinigol

Roedd gweithdrefn ar waith a oedd yn disgrifio'r broses o ran gwerthuso clinigol. Diben y weithdrefn hon oedd sicrhau bod pob cysylltiad meddygol yn cael ei werthuso'n glinigol a bod gwerthusiad yn cael ei ddogfennu. Nododd ymhellach fod y gwerthusiad o ganlyniad cysylltiad meddygol yn cael ei gyfathrebu i'r atgyfeiriwr neu staff perthnasol eraill mewn modd amserol. Nod hyn oedd hwyluso rheolaeth glinigol briodol o'r claf.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod radioleg yn darparu adroddiad ffurfiol yn RadIS2 ar gyfer archwiliadau sy'n cael eu perfformio gan y gwasanaeth. Gwnaed gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod gan bob archwiliad adroddiad. Gwnaed gwaith monitro perfformiad i fesur yr amser a gymer i lunio adroddiad yn unol â'r arweiniad gan yr is-bwyllgor delweddu meddygol. Cynhaliwyd gwiriad misol hefyd i fonitro'r ôl-groniad yn erbyn arweiniad yr is-bwyllgor delweddu meddygol.

¹⁷Mae 'bwydo a lapio' yn dechneg sy'n cael ei defnyddio gyda babanod ifanc yn lle tawelyddu neu anesthesia cyffredinol. Yn gyffredinol, mae babanod yn tueddu i gysgu ar ôl cael eu bwydo, mae babanod wedyn yn cael eu sganio wrth gysgu.

Adroddwyd y gwaith monitro hwn i'r uwch-dîm radioleg a'r grŵp effeithiolrwydd clinigol gofal eilaidd.

Gwnaethom siarad ag uwch-reolwyr am sut y mae'r cyflogwr yn bodloni ei hun bod gan yr holl weithredwyr sy'n gwneud gwerthusiad clinigol yr hawl, eu bod yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i wneud hynny. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant a chymhwysedd yn cael eu gwirio cyn rhoi'r hawl i werthuso'r cysylltiad ag ymbelydredd yn glinigol. Byddai llythyr yn cael ei gyhoeddi i bob gweithredwr i ddangos yr hawl a chwmpas ymarfer hwn.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd yn yr adran radioleg. Roedd y stocrestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYŷ(CM) 2017.

Gofal diogel

Dywedodd bron yr holl staff a fynegodd farn fod gan eu sefydliad y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol, a'u bod yn ymateb yn gyflym pan oedd diffygion, o leiaf ar rai achlysuron. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn fodlon ar ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel, o leiaf 'weithiau' eto. O'r staff a fynegodd farn, dangosodd yr arolwg y canlynol hefyd:

- Cytunodd 90 y cant mai gofal cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad
- Cytunodd 96 y cant fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cytunodd 82 y cant y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio
- Cytunodd 81 y cant y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad ar gyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd arwyddion ar draws yr adran, ar y llawr ac ar y waliau, i gyfeirio cleifion o'r brif ystafell aros i'r is-ystafelloedd aros ar wahân ar gyfer yr archwiliadau perthnasol. Er bod rhai troliau a chadeiriau olwyn wedi'u gosod yn y coridorau, roedd digon o le yn yr ardaloedd hyn o hyd. Gwelsom gleifion a gwelyau yn cael eu cludo heibio'r ardaloedd hyn heb unrhyw broblemau.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith i

atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i ardaloedd lle'r oedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur y byddent yn gwybod sut i adrodd am ymarfer clinigol anniogel pe baent yn poeni amdano. Dywedodd y rhan fwyaf hefyd y byddent yn teimlo'n fodlon wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Er mai 51 y cant yn unig a oedd o'r farn y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ar ôl eu hadrodd, atebodd 33 y cant nad oeddent yn gwybod.

Atal a rheoli heintiau

Yn gyffredinol, roedd yr adran yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo yn y toiledau i gleifion a'r ardaloedd staff yn yr adran. Yn ogystal, roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn yr adran drwyddi draw. Roedd masgiau wyneb a hylif diheintio dwylo ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Dywedodd 96 y cant o'r cleifion a atebodd yr holiadur fod y lle yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân'.

Arsylwyd ar stoc cyfarpar diogelu personol mewn ardaloedd staff ger ystafelloedd archwilio. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd gadarnhau y gellid cael mynediad at gyfarpar diogelu personol ychwanegol pe bai ei angen. Nododd y staff eu bod yn hyderus ac yn gymwys wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a bod cyflenwadau digonol o'r cyfarpar hwn. Roedd y staff hefyd wedi cael prawf ffitio i ddefnyddio'r masg FFP3¹⁸.

Roedd arwyddion wedi'u harddangos wrth y fynedfa i'r adran sy'n nodi mai cleifion yn unig sy'n cael eu caniatáu i fynd heibio'r pwynt hynny, i gadw i'r chwith yn yr adran ac i adrodd i'r dderbynfa a diheintio eu dwylo. Arddangoswyd posteri yn yr adran i atgoffa unigolion i gadw i'r chwith ac i sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol.

Gwnaethom arsylwi ar gleifion yn cyrraedd gyda pherthnasau neu bartneriaid, dim ond y cleifion oedd yn gallu mynd o'r dderbynfa i'r is-ystafelloedd aros a'r ystafelloedd triniaeth. Cadarnhaodd y staff fod cleifion ond yn gallu bod yng nghwmni rhywun mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft plant â rhiant neu ofalwyr cleifion.

¹⁸ Mae masgiau FFP3 yn darparu'r lefel uchaf o amddiffyniad anadlol y gall masg untro ei gynnig. Gall masg FFP3 sy'n ffitio'n dda amddiffyn defnyddwyr rhag mân ronynnau gwenwynig gan gynnwys asbestos, bacteria, firsau a gronynnau ymbelydrol.

Gwnaeth gwybodaeth a ddarparwyd gan y staff nodi bod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal gwaith atal heintiau a dhalogi effeithiol yn yr adran. Cawsom ein hysbysu bod y trefniadau hyn wedi cael eu cryfhau o ganlyniad i COVID-19.

Gwnaethom ofyn cwestiwn i gleifion ynghylch y gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn ystod ymweliadau cleifion. Dywedodd 93 y cant fod y rhain yn 'amllwg iawn' yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd ofyn cyfres o gwestiynau i'r staff am gydymffurfio â COVID-19. Cytunodd yr holl staff fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol a chytunodd pob un fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau ymarfer angenrheidiol. Dywedodd 92 y cant y bu cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a dywedodd 93 y cant fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn 'drwy'r amser' neu 'fel arfer'. Fodd bynnag, cytunodd yr holl staff fod trefniadau dadheintio ar gyfer offer ac ardaloedd perthnasol. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Roedd cyfarpar diogelu personol yn broblem ar y dechrau"

"Roedd diffyg cyfarpar diogelu personol a masgiau a oedd yn golygu na allai rhai o'r staff weithio mewn ardaloedd penodol. Roeddent yn araf iawn i fynd i'r afael â hwn"

"Mae diffygion wedi bod yn genedlaethol ac nid oedd digon o gyfarpar diogelu personol gennym bryd hynny, ond nid wyf wedi sylwi ar ddiffyg ers hynny."

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r dulliau glanhau sy'n cael eu defnyddio ar ôl pob claf, os yr amheuir bod COVID-19 ganddo neu beidio. Dywedwyd wrthym fod fideos amrywiol wedi bod ar gael i'r staff mewn perthynas â gwisgo a diosg¹⁹ cyfarpar diogelu personol, ynghyd â derbyn prawf ffitio at gyfer y masg FFP3. Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn defnyddio masg portacount²⁰ ynghyd â chael eu hyfforddi ar y masgiau a ddefnyddir yn yr uned therapi dwys.

¹⁹ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; Diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol

²⁰ Mae'r Portacount yn ddyfais cyfrif gronynnau amgylchynol a ddefnyddir i gynnal profion ffit trwy ddarparu asesiad meintiol o ollyngiadau sêl wyneb.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Dangosodd trafodaethau â'r staff yn yr adran fod ymwybyddiaeth o weithdrefnau diogelu cyfredol ar waith. Cawsom wybod hefyd bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein er mwyn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu perthnasol. Fe'n hysbyswyd bod arweiniad a chymorth diogelu ar gael ar dudalen fewnrwyd y bwrdd iechyd. Roedd cydymffurfedd staff o dros 88 y cant, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, gyda'r hyfforddiant gorfodol hwn.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliadau clinigol

Darparwyd copi inni o'r archwiliadau clinigol ar gyfer y flwyddyn. Nododd y ffurflen hunanasesu y cynhelir cyfarfod archwilio ar y cyd bob chwarter, gan rannu gwybodaeth ar draws y gwasanaeth cyfan. Recordiwyd y cyfarfodydd hyn er mwyn i staff na allant fynychu allu gweld nodiadau'r cyfarfod ar adeg arall. Hysbyswyd y grwpiau ansawdd radioleg, diogelwch a phrofiad y claf lleol o'r canlyniadau, ac fel y bo'n briodol, adroddwyd ar y canlyniadau i gyfarfod yr uwch-dîm.

Dywedwyd wrthym am yr archwiliad clinigol ar y cyd â chyfraniad gan y tîm clinigol, radiograffwyr ac arbenigwyr ffiseg feddygol yn edrych ar ddelweddu atgyfeiriadau esgyrn wyneb o'r adran achosion brys. Arweiniodd canfyddiadau'r archwiliad at newid mewn arferion ar gyfer delweddu canol wyneb.

Perfformiodd yr adran archwiliadau blynyddol ar gydymffurfedd â RhYŷ(CM) mewn meysydd gan gynnwys gwiriadau statws beichiogrwydd, recordio dosau, adnabod cleifion a chyfiawnhau cysylltiad ag ymbelydredd. Cyflwynwyd canlyniadau'r Archwiliadau blynyddol i'r staff ar y safle a thynnwyd sylw atynt hefyd mewn cyfarfodydd tîm i ddarparu pwyntiau dysgu.

Cyngor arbenigol

Roedd y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd yn dangos bod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r cynghorwyr amddiffyn rhag ymbelydredd²¹ yn chwarae rôl lawn yn yr adran. Roeddent yn ymwneud â gwasanaethau ymyriadol dos uchel a gwasanaethau tomograffeg gyfrifiadurol dos uchel. Yn ogystal, roeddent yn aelodau o nifer o bwyllgorau a grwpiau a oedd yn rhan o'r gwaith o lywodraethu'r adran. Roedd hyn yn cynnwys aelodaeth o Bwyllgor Amddiffyn rhag Ymbelydredd bwrdd iechyd yr ardal²² a Phwyllgor Amddiffyn rhag Ymbelydredd cyffredinol y bwrdd iechyd. Roeddent hefyd yn aelodau craidd a gweithredol o'r timau optimeiddio delweddu radioleg perthnasol. Hefyd, roeddent yn cyfrannu ar sail Cymru gyfan fel aelodau o Fforwm Ansawdd Cymru Gyfan²³ a Grŵp Cyngori Arbenigol Sefydlog ar gyfer Amddiffyn rhag Ymbelydredd Cymru Gyfan²⁴.

Dywedwyd wrthym fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r radiograffwyr sicrhau ansawdd wrthi'n llunio polisi bwrdd iechyd ar gyfer sicrwydd ansawdd, a'r gobaith yw y byddai'n dod yn bolisi i Gymru gyfan. Roedd y rhaglen sicrhau ansawdd yn sefydledig ar gyfer pob darn o gyfarpar, wedi'i datblygu gyda chynor gan y gwneuthurwr a'r arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd y rhaglen sicrhau ansawdd yn nodi amlder a dull profi ynghyd â'r lefelau adfer ac atal ar gyfer profion a gyflawnir gan radiograffwyr. Roeddent hefyd yn gweithredu ar arweiniad proffesiynol ac yn cynghori ar oblygiadau cydymffurfedd â rheoliadau ar draws y bwrdd iechyd, yn

²¹ Mae Cynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd yn gymwys i gynghori cyflogwyr ar ddefnyddio ymbelydredd Ïoneiddio mewn ffordd ddiogel sy'n cydymffurfio. Mae'r rôl yn un a gydnadbyddir yn ôl y gyfraith ac sy'n ofyniad o RhYI(CM) 2017.

²² Mae gan y Pwyllgor Amddiffyn rhag Ymbelydredd aelodau o'r adrannau Radioleg, Radiotherapi, Cynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd/Arbenigwr Ffiseg Feddygol a rhai eraill sy'n defnyddio ymbelydredd. Mae'r aelodau hyn yn darparu cyngor ac arweiniad i'r cyflogwr mewn perthynas ag unrhyw arweiniad a a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr neu gyrff proffesiynol. Caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros y rheoliadau

²³ Is-bwyllgor Bwrdd y Rhaglen Delweddu Cenedlaethol sy'n gweithio i osod safonau ar draws Cymru gyfan.

²⁴ Mae'r Grŵp Cyngori Arbenigol Sefydlog ar gyfer Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn gweithio gyda grwpiau Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru eraill i ddatblygu arweiniad 'unwaith i Gymru' sy'n ymwneud â 'gofalwyr a chysurwyr' a 'gwybodaeth am fuddion risg i gleifion'

lleol i adrannau a thrwy'r pwyllgor polisi rheoleiddiol. Disgrifiwyd y cysylltiadau rhwng yr arbenigwyr ffiseg feddygol a'r adran gan y staff fel rhagorol.

Cawsom adroddiad ar archwiliad amddiffyn ymbelydredd ar gyfer tomograffeg gyfrifiadurol i'r bwrdd iechyd hefyd (gan gynnwys Maelor Wrecsam). Pan oedd meysydd wedi cael eu nodi ar gyfer gwella neu fod angen hyfforddiant mewn grwpiau penodol, dywedwyd wrthym fod yr adran wedi achub ar y cyfle i edrych ar y meysydd hyn ac wedi darparu hyfforddiant ychwanegol.

Ymchwil feddygol

Roedd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd yn dangos bod gweithdrefn cyflogwr ar waith ynglŷn ag ymchwil sy'n cynnwys ymbelydredd ïoneiddio ac ymbelydredd heb ïoneiddio. Roedd polisi ar waith hefyd mewn perthynas ag ymchwil sy'n cynnwys ymbelydredd ïoneiddio ac ymbelydredd heb ïoneiddio. Yn ogystal, roedd yr adran yn cyflogi radiograffwyr ymchwil a radiograffydd sicrhau ansawdd.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod y radiograffydd ymchwil yn derbyn yr holl geisiadau am dreialon ymchwil. Mae atgyfeiriadau'n cael eu hadolygu, ac ar gyfer meddyginiaeth niwclear, mae'r holl ofynion trwyddedu yn cael ei gwirio, cyn eu cymeradwyo. Byddai'r gwiriadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn ac yn cynnwys trafodaethau â'r ymarferwyr a'r arbenigwyr ffiseg feddygol.

Ar ôl cytuno ar dreial, bydd y radiograffydd ymchwil yn creu set o ddogfennau ar gyfer y treial penodol hwnnw a fydd yn cynnwys y protocol delweddu, cyfyngiadau dos a'r nifer disgwylidig o gleifion a fydd yn cael eu recriwtio. Mae'r nyrs ymchwil yn rhoi gwybod i'r radiograffydd ymchwil pan fydd cleifion yn cael eu recriwtio a bydd cofnod RadIS2 y claf yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r treial yr oedd arno. Ar gyfer treialon lle roedd gan yr adran radioleg rôl y prif ymchwilydd, byddai'r radiograffwyr ymchwil yn cael eu recriwtio i'r treial.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu

Cafodd y systemau rheoli gwybodaeth yn yr adran eu disgrifio a'u dangos gan y staff. Roedd y systemau a oedd ar waith yn caniatáu i fanylion perthnasol cleifion a gwybodaeth am weithdrefnau diagnostig ac ymyriadol a gyflawnir gael eu cofnodi a chael eu cyrchu'n hawdd gan staff.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion atgyfeiriadau cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion a adolygwyd wedi'u cwblhau gyda manylion priodol gan y staff hynny a oedd yn ymwneud â'r cysylltiad ag ymbelydredd. Roedd y ffurflenni'n glir ac wedi'u cwblhau i safon dda gyda gwybodaeth glinigol berthnasol yn cael ei gweld i gyfiawnhau'r atgyfeiriad. Roedd gan yr holl ffurflenni dri phwynt

adnabod,²⁵ roedd yr atgyfeiriad wedi'i lofnodi ac enw'r llofnodwr yn glir ym mhob achos. Cafodd y dos ei gofnodi ynghyd â llythrennau blaen y gweithredwr a gwnaeth yr ymarferydd mewn tomograffeg gyfrifiadurol hefyd ysgrifennu'r protocol penodol i'w ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd nodi bod archwiliad blynyddol rheolaidd ar y mislif diwethaf²⁶. Cynhaliwyd yr archwiliad i sicrhau bod yr holl radiograffwyr yn gwirio statws beichiogrwydd yr holl gleifion o oedran geni plant (12-55 oed) yn gywir. Gwnaeth yr archwiliad yn 2021 ddangos nad oedd 32 y cant o'r cleifion a ddewiswyd yn y sampl wedi cael eu hadnabod neu eu dogfennu'n gywir.

²⁵ Enw, dyddiad geni a chyfeiriad

²⁶ Mae mislif diwethaf yn cyfeirio at y diwrnod cyntaf o'ch mislif diwethaf. Mae darparwyr gofal iechyd yn mesur beichiogrwydd mewn wythnosau gan ddechrau o ddiwrnod cyntaf y mislif diwethaf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod strwythur rheoli cadarn gyda llinellau adrodd eglur ar waith. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi cydymffurfedd rheoleiddiol parhaus.

Gwnaeth y staff ddangos bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u rolau yn yr adran.

Gwnaeth yr uwch-staff gadarnhau bod problemau staffio. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei reoli'n weithredol gan y bwrdd iechyd i leihau'r effaith ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau.

Nodwyd rhai materion y mae angen i'r cyflogwr roi sylw iddynt.

Dros gyfnod ein harolygiad, sicrhaodd uwch-reolwyr eu bod ar gael a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn derbyn ein hadborth a gwnaethant arddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a amlygwyd.

Fel y manylwyd yn flaenorol, fel rhan o'n harolygiad, roedd arolwg staff ar gael i roi cyfle i'r holl staff sy'n gweithio yn yr adran roi eu barn. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch-reolwyr y gwasanaeth, ynghyd â detholiad o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Siaradodd tri aelod o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn glir ac yn dda.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom siarad â thri aelod o staff a thri uwch-reolwr am eitemau'n ymwneud â safonau iechyd a gofal.

Nododd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod yr adran yn safle peilot i Gymru yn y Safonau Ansawdd Delweddu²⁷. Roedd yr adran yn gweithio tuag at achrediad, roedd pedair haen i'w cwblhau cyn y gall y safle wneud cais am achrediad. Roedd yr adran ar haen tri ar hyn o bryd ac roedd yn gobeithio cael ei hachredu'n llawn dros y 18-24 mis nesaf.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y gwasanaethau radioleg yn cyfarfod â'r penaethiaid gwasanaeth bob wythnos. Roedd cyfarfodydd arweinwyr dull yn cael eu cynnal gyda phob maes i roi diweddariadau ar statws a heriau. Roedd gan bob safle eu trefniadau eu hunain ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda phob safle. Cynhaliwyd cyfarfod COVID-19 bob pythefnos er mwyn i benaethiaid dulliau rannu'r canllawiau diweddaraf ac i wneud staff yn ymwybodol o'r materion.

Yn yr adran, roedd cyfarfodydd penaethiaid adran unwaith yr wythnos a oedd yn cynnwys y prif arweinwyr o bob maes. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r staff ddarparu adborth i bennaeth yr adran ynghyd â darparu diweddariadau. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod sesiynau briffio radioleg yn cael eu dosbarthu i'r holl staff dros yr e-bost o leiaf unwaith yr wythnos, ond fel arfer ddwy neu dair gwaith yr wythnos. Nid oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi ailddechrau yn sgil COVID-19 ac roedd yr adran yn dibynnu ar anfon negeseuon dros yr e-bost.

Roedd gan y strwythur rheoli sydd ar waith linellau adrodd clir, a ddisgrifiwyd gan yr uwch aelodau o staff ac a ddangoswyd trwy siart sefydliadol. Canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o weithredu'r adran yn effeithiol.

Gwnaeth ofyn rhai cwestiynau mewn perthynas â'r uwch-reolwyr fel rhan o'r holiadur staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr, a dywedasant fod cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol o leiaf 'weithiau'. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod

²⁷ Mae safon ansawdd ar gyfer delweddu wedi'i datblygu gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr a Choleg y Radiograffwyr i amlinellu'r meini prawf sy'n diffinio gwasanaeth delweddu o ansawdd. Mae achrediad Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) o wasanaethau delweddu yn asesiad sy'n canolbwyntio ar y claf sydd wedi'i gynllunio i rhoi hyder i randdeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth, cleifion a'u gofalwyr yn eu diagnosis a phob agwedd ar eu gofal. Mae'r safon ansawdd ar gyfer delweddu'n rhoi fframwaith i'r GIG a'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel yn gyson wedi'u cyflwyno gan staff cymwys sy'n gweithio mewn amgylcheddau diogel.

yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig o leiaf 'weithiau'.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawlogaeth

Roedd tystiolaeth o'r broses ar gyfer hawl deiliaid dyletswydd ar gyfer cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yng ngweithdrefn y cyflogwr ac mewn atodiad i'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ioneiddio. Roedd hwn yn disgrifio sut mae gan staff yr hawl i fod yn atgyfeirwyr, yn ymarferwyr neu'n weithredwyr (gan gynnwys arbenigwyr ffiseg feddygol).

Nododd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd y broses lle yr oedd pob gweithredwr neu grŵp o weithredwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawl a'u cwmpas ymarfer. Roedd gan weithredwyr radioleg llythyr hawl wedi'i lofnodi a gyflwynwyd ar ddechrau'r gyflogaeth sydd wedyn ei ailgyflwyno os ceir unrhyw ddiwygiadau i'w cwmpas ymarfer ar gyfer newidiadau hawlogaeth neu reoliadol. Cadarnhawyd yr hawl hefyd bob blwyddyn trwy'r broses arfarnu.

Mae ymarferwyr yn cael eu hadnabod trwy gael eu cynnwys ar y matrices hawliau RhYŷ(CM) a gwelsom dystiolaeth o hyn. Nododd y ffurflen hunanasesu fod gan ymarferwyr sesiwn ar gydymffurfedd RhYŷ(CM) ar eu rhaglen sefydlu. Mae ymarferwyr yn derbyn llythyr hawl ar gyfer eu cwmpas ymarfer.

Cawsom wybod bod bob atgyfeiriwr anfeddygol yn derbyn llythyr i gadarnhau ei gymhwysedd yn flynyddol. Mae'r gwasanaeth radioleg yn cyflwyno llythyr hawl blynyddol i feddygon teulu a phob ymgynghorydd (i'w rannu â'u tîm) sy'n cynnwys nodyn atgoffa o arferion atgyfeirio da. Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd cofrestriad a chymwysterau pob aelod newydd o staff yn cael eu gwirio. Byddai'r maes radioleg yn cynnal gwiriad bob dwy flynedd o gofrestrau proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau bod atgyfeirwyr meddygol yn parhau i fod yn gofrestredig. Pan fydd atgyfeirwyr anfeddygol yn gwneud atgyfeiriad y tu allan i'w cwmpas ymarfer, mae'n cael ei wrthod gan y radiograffydd a hysbysir y rheolwr llinell. Yn ogystal, aeth y ffurflen hunanasesu ymlaen i nodi y byddai'r adran yn ysgrifennu at ymgynghorwyr gofal eilaidd a phob practis gofal sylfaenol bob blwyddyn neu pan fydd newidiadau i'r rheoliadau i'w hatgoffa o'u hawl i atgyfeirio ac o'r canllawiau atgyfeirio sydd ar gael.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chwmpas eu hawl o dan RhYŷ(CM). Roedd yr hawl yn gysylltiedig â chwblhau'r hyfforddiant perthnasol a'r gwiriadau cymhwysedd ar gyfer cyfarpar ac archwiliadau penodol yn llwyddiannus. Cofnodwyd yr hawliau hyn ar fatrics hyfforddiant yn yr adran. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion hawl staff y gwelsom fel rhan o'n harolygiad wedi'u cwblhau ac yn gyfredol.

Gweithdrefnau ysgrifenedig a phrotocolau

Cafodd Prif Weithredwr y bwrdd iechyd ei benodi fel y defnyddiwr RhYŷ(CM). Roedd y trefniant hwn wedi'i fanylu yn y Polisi Amddiffyn Ymbelydredd Ïoneiddio. Gallai'r Prif Weithredwr ddirprwyo tasgau, ond nid cyfrifoldeb, ar gyfer diogelwch ymbelydredd Ïoneiddio'n briodol trwy'r trefniadau sefydliadol er mwyn rheoli'r risgiau o ymbelydredd Ïoneiddio yn effeithiol. Penododd y Prif Weithredwr y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd i fod yn gyfrifol am y gwaith o gydlynu gweithgareddau'r bwrdd iechyd sy'n ymwneud ag ymbelydredd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad fod ganddynt fynediad at fersiynau cyfredol o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-staff y byddai newidiadau'n cael eu cyfathrebu i'r staff mewn nifer o ffyrdd gan ddibynnu ar y newid. Roedd y rhain yn cynnwys negeseuon e-bost, yn ystod cyfarfodydd dyddiol, yn ystod sesiynau briffio safle radioleg, y cylchlythyr radioleg misol ac y byddai'r weithdrefn yn cael ei diweddarau ar safle SharePoint yr adran radioleg. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau'r broses hon o rannu gwybodaeth.

Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig a phrotocolau wedi cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol â RhYŷ(CM) 2017. Roedd gweithdrefn cyflogwr hefyd ar sicrhau ansawdd gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau a chyfarpar RhYŷ(CM). Diben y weithdrefn hon oedd sicrhau bod yr holl weithdrefnau a phrotocolau mewn perthynas â RhYŷ(CM) yn destun rhaglen sicrhau ansawdd. Yn yr un modd, bod yr holl gyfarpar a gwmpesir gan RhYŷ(CM) yn destun rhaglen sicrhau ansawdd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad fod ganddynt fynediad at fersiynau cyfredol o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Hefyd, cadarnhaodd uwch-staff fod hysbysiadau'n cael eu cylchredeg i staff yr adran pan fydd unrhyw newidiadau i ddogfennau, ac y gofynnir iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y newidiadau perthnasol. Cafodd hyn ei gadarnhau hefyd fel rhan o'r adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu.

Dywedwyd wrthym fod system adolygu gan gymheiriaid ar gyfer adrodd am radiograffwyr. Adroddwyd ar y ganran gywirdeb i'r grŵp ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd radioleg. Roedd gofyn i'r holl atgyfeirwyr anfeddygol gynnal archwiliadau y byddai'r tîm radioleg yn gofyn amdanynt o bryd i'w gilydd at ddibenion sicrwydd. Nid adolygwyd hwn yn ystod yr arolygiad.

Roedd yr adran yn gweithio tuag at system adolygu gan gymheiriaid ar gyfer radiolegwyr ac Everlight. Dywedodd yr uwch staff fod gan Everlight broses fewnol o adolygu pump y cant gan gymheiriaid. Ni chawsant eu hadolygu gan gymheiriaid gan y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn sgil argaeledd staff.

Roedd gan y cyflogwr set o weithdrefnau cyflogwr ar gyfer radioleg sy'n ofynnol o dan Atodlen 2 RhYI(CM) 2017. Yn ogystal, roedd protocolau wedi'u dogfennu ar gyfer archwiliadau diagnostig megis protocol techneg pelydr-X cyffredinol a'r protocolau technegau tomograffeg gyfrifiadurol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pwy oedd wedi llofnodi'r protocolau, ac er bod llofnod nid oedd enw mewn llythrennau bras er mwyn adnabod y llofnod yn hawdd. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan y protocolau enw wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau bras arnynt.

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Dywedodd traean o'r staff eu bod wedi gweld gwallau yn ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn ystod y mis diwethaf. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y tro diwethaf iddynt weld gwall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu ddigwyddiad arall, yr adroddwyd arno.

Cytunodd yr holl ymatebwyr fod y staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg, a bod y sefydliad yn eu hannog i adrodd ar unrhyw wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau. Cytunodd bron pob un fod eu sefydliad yn ymdrin yn gyfrinachol ag unrhyw gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu hadrodd ac nad oedd eu sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl a oedd yn gysylltiedig â'r rhain. Eto, cytunodd bron pob ymatebydd, pan adroddwyd ar wallau, digwyddiadau y bu ond y dim ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, fod eu sefydliad wedi gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto. Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

"Cwblhawyd DATIX mewn perthynas â'r digwyddiad, a rhoddwyd gwybod i'm rheolwr uniongyrchol a'm cydweithwyr perthnasol. Yn dilyn y digwyddiad, mae'r adran berthnasol yn rhoi gwybodaeth reolaidd er mwyn helpu i osgoi camgymeriadau yn y dyfodol."

Cytunodd bron pob aelod o staff a fynegodd farn eu bod yn cael eu hysbysu a'u bod yn derbyn adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt. Er mai dim ond 60 y cant a ddywedodd fod digon o staff 'fel arfer' yn gweithio yn yr adran i wneud eu gwaith yn iawn, dywedodd y 40 y cant sy'n weddill fod digon 'weithiau'.

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r weithdrefn ar gyfer adrodd ac ymchwilio i achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd a digwyddiadau eraill. Roedd hyn yn cynnwys yr aelod o staff sy'n adrodd am y digwyddiad ar Datix, yr offer adrodd ar ddigwyddiadau a ddefnyddir gan yr adran a'r broses o ymchwilio gan aelod uwch o staff.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn cyflogwr ysgrifenedig ar gyfer adrodd ac ymchwilio i achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd yn yr adran. Roedd y weithdrefn cyflogwr yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn os ydynt yn amau bod achos damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd wedi digwydd. Roedd y weithdrefn yn arwain y staff drwy'r broses i'w dilyn a fyddai'n arwain, yn y pen draw, at hysbysu AGIC o ddigwyddiadau o'r fath mewn modd amserol, pan fo angen. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o weithdrefn y cyflogwr pwy a fyddai'n penderfynu pan fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn arwyddocaol yn glinigol.

Roedd y staff a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd. Nododd yr uwch-reolwyr fod y weithdrefn ar gyfer adrodd ac ymchwilio hefyd yn cynnwys amcangyfrif dos a risg a ddarperir gan yr arbenigwr ffiseg feddygol ar gyfer yr adroddiad. Dywedodd y staff y byddent yn cael eu hysbysu am y gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau na fyddai'r un peth yn digwyddiad eto.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Bod gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud ag ymdrin ag achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd yn rhoi arweiniad clir ar bwy a fyddai'n penderfynu pan fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn arwyddocaol yn glinigol.
- Bod gan y protocolau enw'r awdur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau bras arnynt, ynghyd â llofnod.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roeddem yn bryderus i ddarganfod bod chwech aelod o staff a gwblhaodd ein harolwg wedi dweud eu bod wedi wynebu achos o wahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.

Cytunodd 92 y cant o'r staff â'r sylw bod gan staff fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig²⁸, atebodd yr wyth y cant sy'n weddill fod yn well ganddynt 'beidio â dweud'. Yn yr un modd, cytunodd 90 y cant fod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, atebodd y rhai sy'n weddill fod yn well ganddynt 'beidio â dweud'. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod mynediad cyfartal at gyfleoedd yn y gweithle i'r holl staff, ac y byddent yn mynd at eu rheolwr llinell er mwyn adrodd ar achos o wahaniaethu.

Dywedodd yr uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw fod y broses gyfweld at gyfer unrhyw swyddi gwag yn agored a thryloyw. Yn ogystal, trafodwyd unrhyw geisiadau am absenoldeb ymchwil yn ystod cyfarfod wythnosol i sicrhau tegwch ar draws pob safle yn y bwrdd iechyd. Dywedasant hefyd fod system adrodd ddienw'r bwrdd iechyd ar gael y gellid ei defnyddio i adrodd ar unrhyw achos o wahaniaethu a nodwyd.

Llesiant

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r staff yn ymwneud â llesiant staff. Rhoddir eu hymatebion isod:

- Cytunodd 88 y cant nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd
- Cytunodd 93 y cant fod eu rheolwr uniongyrchol yn ymddiddori yn eu hiechyd a'u lles
- Dywedodd 86 y cant fod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant
- Cytunodd 88 y cant fod eu patrwm gwaith cyfredol yn addasu i gydbwysedd da rhwng bywyd personol a gwaith.

Roedd sylwadau gan aelodau o staff yn cynnwys y canlynol:

"...maent wedi bod yn hyblyg iawn gydag oriau er mwyn cyd-fynd â'm bywyd teuluol"

²⁸ Heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

"Dwi'n teimlo fy mod yn gweithio llawer, ac yn gweithio llawer y tu allan i oriau, felly dwi ddim o reidrwydd yn cyflawni'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Ond dwi dim wedi siarad â'r rheolwyr am hyn, felly nid eu bai nhw yw hyn"

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael mynediad at iechyd a llesiant galwedigaethol yn y bwrdd iechyd. Disgrifiodd yr uwch-staff y mentrau llesiant sydd ar gael i gefnogi'r staff yn sgil COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau cwnsela galw heibio, beicio i'r gwaith a mesurau os yw'r staff yn cael masgiau'n anodd, ynghyd â chyfeirio'r staff at lesiant ac iechyd galwedigaethol. Er y cytunodd 89 y cant o'r staff eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael, cawsom ddau sylw negyddol yn yr arolwg staff, fel a ganlyn:

"Mae'r adran iechyd galwedigaethol yn wael iawn ac mae'n cymryd wythnosau i siarad â staff neu i gael apwyntiad"

"Nid yw iechyd galwedigaethol yn yr ymddiriedaeth hon yn addas i'r diben. Oddeutu pedwar diwrnod i ymateb i anafiadau nodwydd"

Fodd bynnag, cytunodd 95 y cant o'r staff eu bod yn cael cynnig cymorth llawn mewn sefyllfaoedd heriol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:

- Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r amser aros canfyddedig gydag iechyd galwedigaethol.

Staffio

Dywedodd yr uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd lefelau staffio'n briodol a bod niferoedd eu radiolegwyr yr isaf yn Ewrop. Dywedasant eu bod wedi derbyn rhywfaint o fuddsoddiad eleni a'u bod bellach yn gweithio ar gynllun cynaliadwy. Yn ogystal, roedd yr adran ar fin hysbysebu am 23 aelod o staff radioleg ychwanegol ar draws y bwrdd iechyd. Roedd nifer o swyddi gwag ym

maes uwchsain, dywedwyd wrthym nad oedd ymgeiswyr ar gael i lenwi'r swyddi gwag hyn. Roedd yr adran hefyd yn hysbysebu am dair swydd ymgynghorydd. Yn sgil nifer y swyddi gwag yn yr adran, nododd y ffurflen hunanasesu fod nifer o radiograffwyr yn cymryd rhan mewn gwaith uwch-ymarfer neu rolau estynedig. Roedd gofyn iddynt ddilyn rhaglen hyfforddiant ffurfiol y cytunwyd arni gan y gwasanaeth radioleg. Lle roedd rhaglen hyfforddiant ôl-radd gydnabyddedig, byddai gofyn i'r aelod o staff gwblhau'r hyfforddiant hwn.

Lle nad oedd cymhwyster ffurfiol wedi'i nodi, byddai'r gwasanaeth radioleg yn datblygu pecyn hyfforddiant pwrpasol a fyddai'n cynnwys elfennau theori ac ymarferol ac yn ymdrin â phob agwedd ar lywodraethu.

Roedd gofyn i bob aelod o staff sy'n cwblhau uwch-ymarfer neu ymarfer estynedig gwblhau hyfforddiant ac dangos cymhwysedd. Roedd hyn yn unol â'r dogfennau llywodraethu ar gyfer yr ymarfer cyn cael yr hawl yn ffurfiol yn ysgrifenedig ac ychwanegu at y matrices hawliau. Roedd hyn hefyd yn rhoi hyfforddiant a chyfleoedd ychwanegol i'r staff wneud cynnydd yn yr adran.

Dywedwyd wrthym y byddai cynnydd yn nifer y myfyrwyr yn yr adran yn ystod y flwyddyn i ddod. Roedd yr adran yn siarad â'r brifysgol am gynllun i reoli a mentora'r myfyrwyr yn ymarferol. Nod hyn oedd sicrhau y byddai ymlediad ymarferol o fyfyrwyr er mwyn caniatáu i staff eu cefnogi ar ben eu rolau eu hunain. Yn ogystal, byddent yn defnyddio ein safleoedd cymunedol yn llawer mwy er mwyn helpu gyda lleoliadau myfyrwyr. Er enghraifft, roedd myfyriwr wedi'i leoli yn Ysbyty Cymunedol Yr Wyddgrug. Mae'r brifysgol bellach wedi gweithredu hyfforddiant realiti rhithwir i fyfyrwyr.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo nad oedd nifer a chymysg sgiliau'r staff yn yr adran weithiau yn ddigon a'u bod yn credu bod yr adran yn ei chael hi'n anodd o ran lefelau staffio. Gwnaethant hefyd sylwadau ar yr her o gwblhau eu llwyth gwaith eu hunain a goruchwyllo myfyrwyr yn yr adran.

Roedd yr ymatebion hefyd yn debyg yn yr arolygon staff gyda 60 y cant o'r rhai a fynegodd farn yn dweud bod digon o staff 'bob amser' neu 'fel arfer' yn gweithio yn yr adran i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd y 40 y cant sy'n weddill fod digon o staff 'weithiau' yn gweithio yn yr adran i wneud eu gwaith yn iawn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod o leiaf 'fel arfer' yn gallu cwrdd â'r holl ofynion sy'n gwrthdaro yn ystod eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer i wneud eu gwaith. Dywedodd bron yr holl staff fod modd iddynt wneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm/adran o leiaf 'weithiau' a'u bod yn rhan o'r broses o wneud newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu gwaith neu eu maes. Dywedodd niferoedd tebyg o staff hefyd fod eu sefydliad yn annog gwaith tîm o leiaf 'weithiau' a'u bod yn gefnogol.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Mae gormod o bwysau ar staff y rheng flaen sy'n gweithio gyda chleifion ac nid oes digon o staff. Yn teimlo fy mod i'n cwyno ac nad oes digon o amser i ddatrys pethau. Pan fydd angen cymorth, nid oes unrhyw reolwyr o gwmpas i siarad â'r cleifion."

"Dwi wedi cael fy nghyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers mis Tachwedd 2019 a dwi wedi'i ystyried fel lle croesawgar a chyfeillgar i weithio. Mae'r staff mamograffeg, a'r staff radioleg ehangach wastad yno i roi arweiniad a chymorth. O'm profiad cyfyngedig o weithio yma, fy argraff i yw bod gan yr adran radioleg weithwyr iechyd proffesiynol gofalgarg a gweithgar."

"Bu angen llawer o gymorth a chynghor arna i gan fy rheolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf ac maen nhw wedi bod yn gefnogol dros ben ac yn barod i helpu. Mae profiad o ysbytai a byrddau iechyd eraill wedi dangos imi fod y cymorth yma yn Betsi, ac yn benodol yn Radioleg, yn hynod o bwysig imi ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn."

"Mae'r rheolwyr wedi bod yn gymwynasgar dros y flwyddyn ddiwethaf lle y bu angen llawer mwy o gymorth arnaf na'r arfer."

Dyweddodd 72 y cant fod gan weithwyr proffesiynol rheng flaen a oedd yn delio'n uniongyrchol â chleifion, 'drwy'r amser', neu 'fel arfer', y rhyddid i siarad a gweithredu pe byddent yn nodi problemau, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain. Dywedodd 23 y cant fod digon o rym ganddynt 'weithiau'.

Dyweddodd 63 y cant o'r staff a fynegodd farn fod diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu 'drwy'r amser', neu 'fel arfer', o fewn y sefydliad a oedd yn cefnogi'r staff i nodi a datrys problemau, dywedodd 32 y cant fod hwn yn wir 'weithiau'. Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

"Nid yw'r adran lle dwi'n gweithio yn annog y staff i leisio pryderon am reolwyr yr adran. Mae'r staff yn cael eu disgyblu am leisio eu barn, felly yn creu diwylliant o 'ddioddef'... Mae morâl yn isel iawn. Dim anogaeth gan y rheolwyr pan fydd y staff yn gwneud gwaith da, dim ond beirniadaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith"

Gwnaethom hefyd ofyn cyfres o gwestiynau am reolwr uniongyrchol ac uwch-reolwr staff, ac o blith y rhai a fynegodd farn ar eu rheolwr uniongyrchol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Dywedodd 86 y cant fod eu rheolwr uniongyrchol yn annog y rhai a oedd yn gweithio iddynt i weithio fel tîm

- Dywedodd 76 y cant y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith
- Er y dywedodd 64 y cant fod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, dywedodd 23 y cant hefyd eu bod yn ei wneud 'weithiau'. Gwnaethant ddweud hefyd fod 42 y cant o uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth gan y staff a dywedodd 42 y cant eu bod yn ei wneud 'weithiau'
- Eto, er y dywedodd 67 y cant fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, dywedodd 20 y cant eu bod yn ei wneud 'weithiau'
- Dywedodd 84 y cant fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Hyfforddiant

Dangosodd adolygiad o'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff fod tystiolaeth glir bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd y ganran gwblhau rhwng 83 y cant ar gyfer codi a chario a 98 y cant ar gyfer hyfforddiant trais ac ymosodedd.

Dywedodd bron yr holl staff a fynegodd eu barn eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol. Yn ogystal, gwnaethom ofyn i'r staff am yr hyfforddiant y maent wedi'i dderbyn mewn perthynas â RhYŷ(CM). Dywedodd oddeutu 90 y cant eu bod wedi derbyn hyfforddiant RhYŷ(CM) sy'n berthnasol i'w swyddogaethau fel ymarferydd neu weithredwr. Dywedodd canran debyg hefyd eu bod wedi cael hyfforddiant cyfredol yn unol â RhYŷ(CM) sy'n berthnasol i'w maes ymarfer a hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'w maes gwaith. Cawsom sylwadau ar hyfforddiant a fyddai o gymorth i staff, a dangosir rhai ohonynt isod:

"Mae'r hyfforddiant gorfodol yn hanfodol wrth gwrs ond hoffwn gael mwy o hyfforddiant sy'n berthnasol i'm swydd, megis dehongli delweddau, gwella technegau, hyfforddiant i'm helpu gyda goruchwyllo myfyrwyr"

"E-ddysgu anaf posibl a achoswyd"

"Arweinyddiaeth/Rheolaeth"

"Ymwybyddiaeth anabledd/gofalwr"

Mewn ymateb i gyfres o gwestiynau sy'n ymwneud â hyfforddiant, roedd canrannau'r staff a fynegodd farn o 'drwy'r amser' neu 'fel arfer' yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd 87 y cant fod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol
- Dywedodd 91 y cant fod hyfforddiant yn eu helpu i gael y wybodaeth fwyaf cyfredol o ran y gofynion proffesiynol
- Dywedodd 81 y cant fod hyfforddiant wedi'u helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion.

Arfarniadau

Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd fod 66 y cant o'r adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu yn gyfredol. Roedd y ffigur hwn yn debyg i 69 y cant o'r staff a fynegodd farn yn yr holiadur eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf.

Dywedodd yr holl staff wrthym mai hwn yw un o'r eitemau agenda wythnosol yn ystod cyfarfodydd penaethiaid adran. Roedd y staff wedi cael eu hannog i sicrhau bod eu harfarniad yn cael ei gynnal gyda'u goruchwylwyr ac roedd yr holl arfarniadau sy'n weddill bellach wedi'u trefnu yn nyddiaduron y rheolwyr. Er y dylai'r arfarniadau gynnwys nodi anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygu, dim ond 55 y cant a ddywedodd fod y rhain wedi'u cwmpasu yn y cyfarfodydd hyn. Yn ogystal, dywedodd 73 y cant o'r staff fod eu rheolwr yn eu cefnogi i gael hyfforddiant a chyfleoedd datblygu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cwblhau bob blwyddyn
- Bod yr arfarniadau'n cael eu cwblhau'n llawn, gan nodi anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â [Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) a'u diwygiad dilynol ([2018](#)).

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg o'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad ag ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Diwallu unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo'n briodol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn rhybudd o hyd at 12 wythnos o arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un arolygydd AGIC, ac fe'u cefnogir gan uwch-swyddog clinigol o Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Maelor Wrecsam
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiad yr arolygiad: 19 a 20 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Maelor Wrecsam
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiad yr arolygiad: 19 a 20 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses wedi'i dogfennu ar gyfer hysbysu'r cleifion am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd wrth ymgymryd â phob archwiliad radiolegol gan gynnwys gweithdrefnau theatr. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys pwy fydd yn darparu'r wybodaeth a sut mae'n cael ei chofnodi.	Rhŷi(CM) 2017 Atodlen 2 1(i)	RAD 072 Diweddarau dulliau o gyfathrebu buddion a risgiau ymbelydredd ïoneiddio cyn archwiliad yn unol â Rhŷi(CM) er mwyn ei nodi'n glir mewn perthynas â chleifion sy'n cael gweithdrefnau theatr fod angen i hyn gael ei gynnwys yn y broses gydsynio. Bydd yr hysbysiad blynyddol hawliau i atgyfeirwyr meddygol yn cynnwys rhan ar drafodaethau buddion a risgiau a gwybodaeth am y dos a'i risg	Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg Rheolwr Gwasanaethau Proffesiynol Radiograffeg	5 Chwefror 2022 31 Ionawr 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Atgoffa'r staff clinigol pan fyddant yn cydsynio am weithdrefn sy'n defnyddio arweiniad pelydr-X y dylid cynnwys hyn yn y drafodaeth gydsynio. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r hysbysiad radioleg blynyddol ac y bydd cydymffurfedd yn cael ei fonitro trwy archwiliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o'r prosesau cydsynio</p>	<p>Cyfarwyddwr meddygol neu Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siaradwyr Cymraeg neu gymorth Cymraeg yn yr adran i helpu i gyflawni'r 'Cynnig Rhagweithiol'.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Dylid atgoffa'r holl staff o argaeledd y llinell iaith yn enwedig ar gyfer y tu allan i oriau pan nad oes unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd</p> <p>Dylid arddangos posteri Cymraeg yn yr adran i roi gwybod i'r cleifion y gallant ofyn am siaradwr Cymraeg</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 21</p> <p>31 Ionawr 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod system ar waith i sicrhau y gofynnir am adborth gan y cleifion, a'r staff, yn rheolaidd. Bod y cleifion a'r staff yn cael gwybod am ganlyniadau'r adborth Bod staff yn deall sut mae adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau. 	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	<p>Mae CIVICA (plattform profiad y claf) wedi cael ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd. Bydd y posteri ar gyfer y codau QR i'w gweld ar draws yr adrannau radioleg o fis Ionawr 2022. Bydd adborth o'r system hon yn cael ei dderbyn yn rheolaidd a'i rannu trwy gyfarfodydd ansawdd.</p> <p>Gall y staff roi adborth mewn nifer o ffyrdd naill ai yn uniongyrchol gyda staff ym maes radioleg neu trwy systemau cyfrinachol y bwrdd iechyd. Rhoddir adborth i'r staff drwy gyfarfodydd briffio'r adran a'r cylchlythyr, diwrnodau archwiliadau a chyfarfodydd ansawdd a phrofiad.</p> <p>Bydd gwelliannau a wnaed yn cael eu bwydo yn ôl i'r cleifion trwy bosteri yn yr adrannau a thrwy adroddiadau i Bwyllgor Profiad y Claf a'r Gofalwyr</p>	Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu	<p>31 Ionawr 2022</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cynnal i bob unigolyn sydd â'r gallu i gael plentyn lle y bo'n berthnasol a bod y cofnod hwn yn cael ei ddogfennu. Bod ystod oedran y cleifion y dylid gofyn iddynt am feichiogrwydd yn cael ei chynnwys yn y siart lif fel y disgrifir yn y weithdrefn cyflogwr berthnasol Bod gweithdrefn cyflogwr delweddu anfeddygol yn cael ei diweddarau yn unol ag archwiliadau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd Bod cofnod o wiriadau beichiogrwydd a gynhelir ar ofalwyr a chysurwyr yn cael 	<p>RhYi(CM) 2017 Rheoliad 6 (8) Atodlen 2 1(c)</p> <p>RhYi(CM) 2017 Atodlen 2 1(m)</p> <p>RhYi(CM) 2017 Rheoliad 12 (5)</p> <p>Atodlen 2 1(c) (n)</p>	<p>Dosbarthu hysbysiad gwelliant radioleg ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ac atgoffa'r staff trwy sesiynau briffio a chyfarfodydd.</p> <p>Cyflwyno archwiliadau sicrwydd ar ffurf ciplun misol</p> <p>Diwygio'r siart lif i gynnwys ystod oedran</p> <p>Diweddarau'r weithdrefn i adlewyrchu arweiniad cyfredol</p> <p>Diwygio'r ddogfen ddal i gynnwys colofn ar wiriad beichiogrwydd yn cael ei gynnal i gysurwyr a gofalwyr.</p>	<p>Pennaeth Ansawdd Llywodraethu Radioleg a</p> <p>Pennaeth Ansawdd Llywodraethu Radioleg a</p> <p>Pennaeth Ansawdd Llywodraethu Radioleg a</p> <p>Arbenigwr Ffiseg Feddygol/Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radioleg</p> <p>Pennaeth Ansawdd Llywodraethu a</p>	<p>Cwblhawyd 4 Tachwedd 2021</p> <p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd Rhagfyr 2021</p> <p>5 Chwefror 2022</p> <p>5 Chwefror 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ei gofnodi yn y llyfr perthnasol yn yr ystafelloedd archwilio.				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl gofnodion sefydlu a hyfforddiant yn cael eu cwblhau'n llawn, gyda llofnodion a dyddiadau i ddangos bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau.	RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 6 (3) (b) Rheoliad 17 Atodlen 3 1	Atgoffa rheolwyr gwasanaeth radioleg ac arweinwyr clinigol o'r angen i sicrhau bod yr holl gofnodion sefydlu a hyfforddiant yn cael eu cymeradwyo a'u dyddio ar ôl eu cwblhau cyn cyflwyno hawliau. Bydd sicrwydd cydymffurfedd yn cael ei wneud fel rhan o'r broses archwilio blynyddol RhYİ(CM)	Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radiograffeg	Parhaus
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y canllawiau awdurdodi yn enwi ymarferydd y gellir ei adnabod.	RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 6 (1) Rheoliad 11 (1) (c) Rheoliad 11(5)	Diweddarau gweithdrefnau awdurdodi dirprwyedig i nodi'n glir pwy yw'r ymarferydd RhYİ(CM)	Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radiograffeg	Cwblhawyd Tachwedd 2021
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud ag ymdrin ag achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 8 (1) Atodlen 2 (1) (l)	Diweddarau'r weithdrefn i nodi pwy fyddai'n penderfynu pan fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn arwyddocaol yn glinigol.	Pennaeth Ansawdd Llywodraethu Radioleg	5 Chwefror a 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ag ymbelydredd yn rhoi arweiniad clir ar bwy a fyddai'n penderfynu pan fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn arwyddocaol yn glinigol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod gan y protocolau enw'r awdur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau bras arnynt, ynghyd â llofnod. 	Rhŷi(CM) 2017 Rheoliad 6 (4)	Diweddarau'r ddogfen brotocol i gynnwys dyddiad	Rheolwr Gwasanaeth Radioleg Dwyrain y	Cwblhawyd 6 Ionawr 2022
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol Sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd 	7.1 Gweithlu	<p>Dylai'r holl staff radioleg gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o gydymffurfedd hyfforddiant gorfodol</p> <p>Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y polisïau canlynol ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin mewn modd teg ac nad yw gwahaniaethu yn cael ei oddef:</p> <ul style="list-style-type: none"> WP6 (Cod Ymarfer) WP8 (Polisi Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) 	Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radiograffeg/Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	Chwefror 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r amser aros canfyddedig gydag iechyd galwedigaethol.</p>		<ul style="list-style-type: none"> WP42 (Polisi Ymdrin ag Achosion o Gasineb) <p>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno'r rhaglen Lleisio Barn yn Ddiogel.</p> <p>Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r polisiâu uchod a phorth Lleisio Barn yn Ddiogel i'r staff radioleg trwy'r canlynol:</p> <p>Posterï</p> <p>Sesiynau ymwybyddiaeth</p> <p>Rhan yng nghylchlythyr yr adran radioleg</p> <p>Mae llinell gyngor ar gael ar gyfer anafiadau nodwydd bump diwrnod yr wythnos gyda dangosydd perfformiad allweddol o 45 munud ar gyfer rhoi cyngor. Y tu allan i oriau'r Adran Achosion Brys.</p>	<p>Pennaeth Iechyd Galwedigaethol</p>	<p>Ebrill 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae iechyd galwedigaethol yn recriwtio staff ychwanegol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r gwasanaeth. Mae gwasanaeth cynghori ar gael i'r staff hunan-atgyfeirio bump diwrnod yr wythnos.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cwblhau bob blwyddyn Bod yr arfarniadau'n cael eu cwblhau'n llawn, gan nodi anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad. 	7.1 Gweithlu	<p>Dylai'r grŵp Ansawdd a Diogelwch Radioleg fonitro cydymffurfedd ag arfarniadau (adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu) bob mis</p> <p>Dylai'r holl arfarnwyr sicrhau bod dyddiad yn y dyddiadur ar gyfer yr arfarniad (adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu) nesaf</p> <p>Mae cynlluniau hyfforddiant yn ofynnol fel rhan o'r broses arfarnu (adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu). Dylid atgoffa'r holl arfarnwyr o'r angen i sicrhau bod anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad yn cael eu nodi</p>	Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radiograffeg	30 Mawrth 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Helen Hughes

Swydd: Rheolwr Gwasanaeth Proffesiynol Radiograffeg

Dyddiad: 6 Ionawr 2022